Alawon a Chaneuon Sesh Sŵn Mai 2021

Thema: "Cerddoriaeth y Môr"



Glas y môr yn ei lygaid, a'i deryll ddyfnderau'n eu canol,
Hiraeth yr eigion aflonydd fyth yn ei lais efô,-
Dyn nad oedd un a'i cadwynai, rhydd megis rhyddid yr awel,
Cymrawd y don bererin, mab anfeidroldeb y môr!

"Madog", T. Gwynn Jones


Harbwr Corc



Trefniant Meurig Williams

1. Yn harbwr Corc yr oeddwn, ryw fore gyda'r dydd, Gyda'r dydd,
   O hogia bach, ryw fore gyda'r dydd,
   A phawb oedd yno'n llawen, 'doedd yno neb yn brudd, neb yn brudd,
   O hogia bach, 'doedd yno neb yn brudd.
2. O Rhisiart, medde Morus, a Morus, medde Twm, medde Twm,
   Well inni riffio'r hwylie, cyn del y tywydd trwm, tywydd trwm,
3. O Twm Co bach a Morus, mae'n bygwth gwynt a glaw, gwynt a glaw,
   Daw'r cesyg gwynion allan—a Twm yn ateb 'taw', ateb 'taw',
4. Daw'r gwynt yn ôl i'r gogledd, cawn eto dywydd teg, tywydd teg,
   A bydd y llong yn cerdded, ag asgwrn yn ei cheg, yn ei cheg,


Bedd y Morwr



Trefniant Meurig Williams

Morgawr

Sea monster



Alaw Simon Owen

Gweddi Eli Jenkins



Trosiad T. James Jones o eiriau Dylan Thomas **Salm-dôn Troyte**

Wrth ddihuno gyda'r wawr,
Yn ôl f'arfer, Arglwydd mawr,
Gofynnaf i Ti roi dy hedd
I greaduriaid crud a bedd.

A chyda'r machlud yn ddiffael
Gofynnaf am Dy fendith hael.
Cans ti yn unig, Arglwydd mawr,
A ŵyr yn siŵr pwy wel y wawr.

Nid oes neb drwy'r Wenallt 'oll
Yn ôl Dy farn yn llwyr ar goll,
Cans gwn yn siŵr mae Tad wyt Ti
A wêl bob tro ein gorau ni.

Rho un dydd eto, Arglwydd da,
A'th fendith hwyrol caniatâ,
Ac wrth yr haul sy'n mynd am sbel
Cawn ddweud nos da heb ddweud ffarwel.


Ffarwél i Ddociau Lerpwl

trfn. Delyth Hopkins Evans



2. Am y cyntaf lawr i'r Parrog
I weld y *Seventy Four*,
Mae'i bows hi ar y Castell,
A'i starn hi ar y môr.
Ffarwél i draethau Penfro,
A'r merched ieuainc llon,
Rwy'n mynd yn awr heb oedi
I nofio ar y don.

Fflat Huw Puw



2. Mi bryna'i yn lwerddon sane sidan,
Sgidie bach i ddawnsio, a rheini â bycle arian;
Mi fydda' i'n ŵr bonheddig tra bydda'i byw
Os ca'i fynd yn Gapten llong ar Fflat Huw Puw.
Cytgan:

3. Mi gadwa' i'r Fflat fel parlwr gore,
Bydd sgwrio mawr a chrafu bob ben bore;
Mi fydd y pres yn sgleinio ar y llyw
Pan fydda' i yn Gapten llong ar Fflat Huw Puw.
Cytgan:

O'r llyfr *Welsh Songs (gol. Lefi Gruffudd) y Lolfa*